



Nant Gwrtheyrn

Pecyn Croeso Preswyl

2026-2027

Residential Welcome Pack



TABL CYNNWYS

TABLE OF CONTENTS

01

Croeso/
Welcome



02

Sut i gyrraedd/
How to arrive



03

Map



04

Amserlen/
Timetable



05

Llety/
Accommodation



06

Cyfleusterau/
Facilities



07

Iechyd a Diogelwch
ac Argyfwng Tân
Health and Safety
and Fire Emergency



08

Nofio yn y môr/
Swimming in
the sea





OS SE RO R C



Diolch yn fawr iawn am gofrestru
ar gyfer cwrs gyda ni yn Nant
Gwrtheyrn.

Thank you very much for
registering for a course with us
at Nant Gwrtheyrn.

Pwrrpas y pecyn hwn yw
hwyluso'ch arhosiad a'ch profiad
gyda ni, ac rydym yn eich annog
i'w ddarllen **cyn** i chi gyrraedd.

For a pleasant stay and
experience, we kindly ask that
you read this information
booklet **prior** to your arrival.

Os oes gennych unrhyw
gwestiynau, cysylltwch â ni:

If you have any questions, please
contact us:

Ffôn: 01758 750334 / Opsiwn 3
E-bost:
addysg@nantgwrtheyrn.org

Tel: 01758 750334 / Option 3
Email:
addysg@nantgwrtheyrn.org



SUT I GYRRAEDD?

Cod post: LL53 6PA

Lleoliad: Canolfan Iaith Nant Gwrtheyrn,
Penrhyn Llŷn, ger pentref Llithfaen.


Gorsafoedd trên agosaf: Pwllheli a Bangor;
bysiau neu dacsï o Fangor i Bwllheli a
Phwllheli i Llithfaen. O Lithfaen, mae tua 2
filltir o daith i lawr i'r Ganolfan. Nid yw
trafnidiaeth gyhoeddus yn teithio'n
uniongyrchol i'r Ganolfan, fel arfer y dewis
mwyaf cyfleus yw tacsï o'r orsaf drenau.

Mewn car o Borthmadog: A497 tuag at
Criccieth – pasio Llanystumdwy – B4354
tuag at Chwilog – Y Ffôr – A499 tuag at
Llanaelhaearn – B4417 tuag at Nefyn –
Llithfaen – dilyn y ffordd i fyny'r allt i lawr i
Nant Gwrtheyrn (tua 2 filltir).

Mewn car o Gaernarfon: A499 tuag at
Pwllheli – trowch i B4417 tuag at Nefyn –
dilyn arwyddion brown i Nant Gwrtheyrn.

Mae maes parcio ar gael ar y safle.

Dewch o hyd i'n lleoliad [what3words](mailto:what3words@pushover.trickles) yma:
[///emails.pushover.trickles](mailto:what3words@pushover.trickles)





HOW TO ARRIVE?

Postcode: LL53 6PA

Location: Nant Gwrtheyrn Language Centre, Llŷn Peninsula, near Llithfaen.


Nearest train stations: Pwllheli and Bangor; buses or taxi from Bangor to Pwllheli and Pwllheli to Llithfaen. From Lithfaen, it is about a 2 mile journey down to the Centre. Public transport does not travel directly to the Centre, usually the most convenient option is a taxi from the train station.

By car from Porthmadog: A497 towards Criccieth – pass Llanystumdwy – B4354 towards Chwilog – Y Ffôr – A499 towards Llanaelhaearn – B4417 towards Nefyn – Llithfaen – follow the road uphill for about 2 miles to Nant Gwrtheyrn.

By car from Caernarfon: A499 towards Pwllheli – turn onto B4417 towards Nefyn – follow the brown signs to Nant Gwrtheyrn.

There is a car park available on site.

Please find our [what3words](https://www.what3words.com/ll536pa) location here:
[///emails.pushover.trickles](https://www.what3words.com/ll536pa)





Tŷ Canol a Sgubor

Maes parcio
/ Car park

Trem y Môr / Seaview Terrace

Maes parcio
/ Car park

Y Swyddfa a'r
Dderbynfa /
The Office and
Reception

Trem y Mynydd /
Mountainview Terrace

Capel /
Chapel

Y Plas

Cae Canol

Y Neuadd / The Hall

Caffi Meinir

Llwybr lawr i'r Traeth /
Path down to the Beach



Bydd angen i chi gyrraedd Nant Gwrtheyrn rhwng 9:00 a 9:30 ar y bore Llun. Os ydych yn aros, ewch i'r dderbynfa ar ôl cyrraedd, a bydd aelod o staff yn mynd â chi i'ch ystafell. Bydd y Cyfarfod Croeso yn cael ei gynnal yn y Neuadd neu'r Caffi, lle byddwch yn derbyn gwybodaeth am y safle, trefniadau'r wythnos a gweithdrefnau iechyd a diogelwch.

DYDD LLUN

09:00 - 09:30 Cyrraedd a Chofrestru

09:45 Cyfarfod Croeso

10:00-11:00 Gwers

11:30 - 12:00 Paned

12:00 - 13:00 Gwers

13:00 - 14:00 Cinio

14:00 - 15:30 Gwers

15:30 - 16:00 Paned

16:00 - 17:00 Gwers

18:00

Bydd swper yn cael ei weini yn y Neuadd neu'r Caffi.
Rhowch wybod i ni am unrhyw alergeddau neu anghenion dietegol penodol ymlaen llaw.



You should arrive at Nant Gwrtheyrn between 9:00 and 9:30 on Monday morning. If you are staying with us, please go to reception on arrival and a member of staff will show you to your room. The Welcome Meeting will take place in the Hall or Café, where you'll receive information about the site, the week's arrangements and our health and safety procedures.

MONDAY

09:00 - 09:30 Arriving and Registering

09:45 Welcome Meeting

10:00-11:00 Lesson

11:30 - 12:00 Cuppa

12:00 - 13:00 Lesson

13:00 - 14:00 Lunch

14:00 - 15:30 Lesson

15:30 - 16:00 Cuppa

16:00 - 17:00 Lesson

18:00

The evening meal will be served in the Hall or Café.
Please inform us of any allergies or specific dietary requirements in advance.



DYDD MAWRTH

08:30	Brecwast
09:30-11:00	Gwers
11:00 - 11:30	Paned
11:30 - 13:00	Gwers
13:00 - 14:00	Cinio
14:00 - 15:30	Gwers
15:30 - 16:00	Paned
16:00 - 17:00	Gwers
18:00	Swper Bydd swper yn cael ei weini yn y Neuadd neu'r Caffi. <u>Rhowch wybod i ni am unrhyw alergeddau neu anghenion dietegol penodol ymlaen llaw.</u>
19:30	Adloniant Rydym yn trefnu adloniant ar gyfer nos Fawrth. Bydd yn cael ei gynnal yn y Neuadd, y Caffi neu'r Capel. Byddwch yn derbyn mwy o wybodaeth gan eich tiwtor.



TUESDAY

08:30	Breakfast
09:30-11:00	Lesson
11:00 - 11:30	Cuppa
11:30 - 13:00	Lesson
13:00 - 14:00	Lunch
14:00 - 15:30	Lesson
15:30 - 16:00	Cuppa
16:00 - 17:00	Lesson
18:00	Evening meal The evening meal will be served in the Hall or Café. <u>Please inform us of any allergies or specific dietary requirements in advance.</u>
19:30	Entertainment Entertainment is arranged for Tuesday night, which will take place in the Hall, the Café, or the Chapel. You will receive more information from your tutor.



DYDD MERCHER

08:30	Brecwast
09:30-11:00	Gwers
11:00 - 11:30	Paned
11:30 - 13:00	Gwers
13:00 - 14:00	Cinio
14:00 - 17:30	Ymweliad / Taith Byddwch yn ymweld ag atyniad lleol brynhawn Mercher ac yn cael cyfle i ddefnyddio eich Cymraeg. Bydd bws yn cael ei ddarparu. Dewch â dillad ac esgidiau addas ar gyfer yr adeg o'r flwyddyn.
18:00	Swper Bydd swper yn cael ei weini yn y Neuadd neu'r Caffi. <u>Rhowch wybod i ni am unrhyw alergeddau neu anghenion dietegol penodol ymlaen llaw.</u>

Nid oes unrhyw weithgareddau ffurfiol yn cael eu trefnu ar gyfer nos Fercher ond mae croeso i chi ymlacio yn Y Plas gyda'ch cyd-fyfyrwyr neu fynd i fynyr allt i Dafarn y Fic yn Llithfaen.

Nid ydym yn trefnu trafnidiaeth i'r Fic. Os ydych chi'n dewis cerdded, mae'n daith heriol o oddeutu dwy filltir gyda dringo serth am y filltir gyntaf.



WEDNESDAY

08:30

Breakfast

09:30-11:00

Lesson

11:00 - 11:30

Cuppa

11:30 - 13:00

Lesson

13:00 - 14:00

Lunch

14:00 - 17:30

Visit / Trip

You will visit a local attraction on Wednesday afternoon and have the opportunity to use your Welsh. A bus will be arranged. Please bring suitable clothing and footwear for the time of year.

18:00

Evening meal

The evening meal will be served in the Hall or Café.
Please inform us of any allergies or specific dietary requirements in advance.

There are no formal activities scheduled for Wednesday evening, but feel free to relax in The Plas with your fellow students or head uphill to Tafarn y Fic (Pub) in Llithfaen. We do not organise transport to the Fic. If you choose to walk, it is a challenging walk of around two miles with a steep climb for the first mile.



DYDD IAU

08:30 Brecwast

09:30-11:00 Gwers

11:00 - 11:30 Paned

11:30 - 13:00 Gwers

13:00 - 14:00 Lunch

14:00 - 15:30 Gwers

15:30 - 16:00 Paned

16:00 - 17:00 Gwers

18:00 Swper

Bydd swper yn cael ei weini yn y Neuadd neu'r Caffi.
Rhowch wybod i ni am unrhyw alergeddau neu anghenion dietegol penodol ymlaen llaw.

Nid oes unrhyw weithgareddau ffurfiol yn cael eu trefnu ar gyfer nos Iau ond mae croeso i chi ymlacio yn Y Plas gyda'ch cyd-fyfyrwyr neu fynd i fyny'r allt i Dafarn y Fic yn Llithfaen.

Nid ydym yn trefnu trafndiaeth i'r Fic. Os ydych chi'n dewis cerdded, mae'n daith heriol o oddeutu dwy filltir gyda dringo serth am y filltir gyntaf.



THURSDAY

08:30

Breakfast

09:30-11:00

Lesson

11:00 - 11:30

Cuppa

11:30 - 13:00

Lesson

13:00 - 14:00

Lunch

14:00 - 15:30

Lesson

15:30 - 16:00

Cuppa

16:00 - 17:00

Lesson

18:00

Evening meal

The evening meal will be served in the Hall or Café.
Please inform us of any allergies or specific dietary requirements in advance.

There are no formal activities scheduled for Thursday evening, but feel free to relax in The Plas with your fellow students or head uphill to Tafarn y Fic (Pub) in Llithfaen. We do not organise transport to the Fic. If you choose to walk, it is a challenging walk of around two miles with a steep climb for the first mile.



DYDD GWENER / FRIDAY

08:30

Brecwast / Breakfast

09:30-11:00

Gwers / Lesson

11:00 - 11:30


Paned / Cuppa



11:30 - 13:00

Gwers / Lesson

13:00 - 14:00

Cinio a Ffarwelio / Lunch and
Goodbyes





Ystafell wely...

Mae dillad gwely a thywelion wedi'u cynnwys a thegell, sychwr gwallt, siampw a sebon. Bydd cyflenwad bychan o de, coffi, siwgr a llefrith/llaeth hefyd. Os ydych chi angen mwy o unrhyw eitem, ewch i'r dderbynfa gyda'r daflen ailgyflenwi o'ch ystafell.

Nid oes teledu na radio yn yr ystafelloedd gan ein bod yn teimlo bod pobl yn dod i'r Nant i fwynhau llonyddwch, distawrwydd a'r cyfle i ganolbwyntio ar eu profiad dysgu. Fodd bynnag, mae croeso i chi ddod ag unrhyw declynnau clyfar gyda chi, ac mae wi-fi ar gael.

Os oes angen math penodol o ystafell arnoch chi oherwydd anghenion hygrychedd e.e. ystafell i lawr grisiau, ystafell gyda thoiled hygrych yna [rhowch wybod i ni ymlaen llaw fel y gallwn drefnu hyn i chi.](#)

Archebu nos Sul...

Os nad ydych wedi gwneud hyn yn ystod y broses gofrestru a'ch bod yn dymuno cyrraedd y Nant y diwrnod cyn eich cwrs, gallwch archebu noson ychwanegol drwy ffonio'r swyddfa ar 01758750334 a dewis opsiwn 1 ar gyfer "Archebion Derbynfa a Llety". Y gost ar gyfer noson ychwanegol yw £75, sy'n cynnwys gwely a brecwast. Gwnewch yn siŵr eich bod yn archebu eich lle erbyn y dydd Mercher cyn eich cwrs. Bydd yr Adran Lety yn e-bostio manylion eich ystafell a'r manylion cyrraedd erbyn y dydd Gwener cyn eich cwrs.

Gadael yr ystafell...

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gadael eich ystafell erbyn 9:30 fore Gwener. Gofynnwn yn garedig i chi beidio gadael yr allwedd yn y clo yn nrws eich ystafell neu mewn argyfwng, ni fyddwn yn gallu agor y drws o'r tu allan. Ni fydd aelod o staff yn dod i mewn i'r ystafell oni bai eich bod angen cymorth neu ein bod yn bryderus am eich diogelwch. Dylech adael yr allwedd yn yr ystafell wrth adael. Gofynnwn yn garedig i chi wneud pob ymdrech i adael yr ystafell yn yr un cyflwr ag y daethoch o hyd iddi. Diolch!



ACCOMMODATION



Room...

Bedding and towels are included, along with a kettle, hairdryer, shampoo and soap. A small supply of tea, coffee, sugar, and milk is also provided. If you need to replenish any items, please come to the reception with the replenishment sheet from your room.

There are no televisions or radios in the rooms, as we believe that people come to the Nant to enjoy peace, quiet, and the opportunity to focus on their learning experience. However, you are welcome to bring any smart devices with you, and wi-fi is available.

If you need a specific type of room because of accessibility requirements, for example a downstairs room or a room with an accessible toilet, [please let us know in advance so we can arrange this for you.](#)

Sunday night booking...

If you haven't done so during registration and wish to arrive at the Nant the day before your course, you can book an additional night by calling the office at 01758750334 and selecting option 1 for "Reception and Accommodation Bookings." The cost for an extra night is £75, which includes bed and breakfast. Please ensure you book by the Wednesday before your course. The Accommodation Department will e-mail your check-in details to you by the Friday before your course.

Departure...

Please make sure to vacate your room by 9:30 on Friday morning. We kindly ask you not to leave the key in the door or in an emergency, we will not be able to open the door from the outside. A member of staff will not enter the room unless you need help or we are concerned for your safety. We kindly ask that keys are left in the room upon departure. We kindly ask that you make every effort to leave the room in the same condition as you found it. Thank you!



CYFLEUSTERAU

Bwyd...

Bydd eich prydau yn cael eu darparu yn ystod cyfnod y cwrs preswyl.

Rhowch wybod i ni am unrhyw alergeddau neu anghenion dietegol penodol ymlaen llaw. Mae hyn yn cynnwys alergeddau, anghenion meddygol, anghenion crefyddol a dewisiadau ffordd of fyw (er enghraifft: di-glwten, llysieuol, fegan, halal). **Nodyn caredig:** Byddwn yn gwneud ein gorau i ddarparu ar gyfer anghenion dietegol ond nid ydym yn gallu darparu ar gyfer dewisiadau personol (hoff a chas fwyd). Mae dewis i swper bob nos felly gobeithio y byddwch yn gallu dewis rhywbeth y byddwch chi'n ei fwynhau.

Swper nos Sul: Rhwng mis Hydref a mis Ebrill, bydd Caffi Meinir yn agored dan 18:30 ac yn gweini bwyd hyd at 18:00. Nid oes angen archebu ymlaen llaw – gallwch archebu o'r fwydlen ddydd arferol.

Dosbarth...

Mae dosbarthiadau yn cael eu cynnal yn y 'Sgubor, y Plas, Y Capel neu Ystafell Rhys. Byddwch yn cael gwybod ym mha ystafell ddosbarth y byddwch fore Llun. Mae'r holl ardaloedd addysgu yn hygyrch, ac mae lifft ar gael er mwyn mynd i'r ystafell ddysgu sydd i fyny'r grisiau yn y Plas.

Plas...

Y cod i fynd i mewn i'r Plas yw **C1567X**. Mae croeso i chi ymlacio yn y Plas gyda'r nos. Mae oergell a microdon yno.

Lleol...


Mae siop gymunedol yn y pentref agosaf, Llithfaen. Mae gan y pentref hefyd dafarn gymunedol, Y Fic, sydd ar agor o nos Fercher hyd at nos Sul. Nid ydynt yn gweini bwyd.

Siopau...

Mae'r orsaf betrol agosaf yn Y Ffôr neu Morfa Nefyn. Yn Nefyn (5 milltir o'r Nant), gallwch ddod o hyd i ddwy siop fwyd, fferyllfa a thafarndai. Mae gan y dref agosaf, Pwllheli (8 milltir o'r Nant) amrywiaeth o siopau, yn ogystal â dwy orsaf betrol. Mae llawer o'r siopau ar agor bob dydd rhwng 8:00 a 21:00.

Pwyntiau gwefru ceir trydan...

Maent wedi'u lleoli y tu ôl i'r Sgubor. Os oes angen unrhyw gymorth arnoch, dewch i'r dderbynfa.





FACILITIES

Food...

Your meals will be provided during the residential course period.

Please inform us of any allergies or specific dietary requirements in advance. This includes allergies, intolerances, medical needs, religious dietary requirements and lifestyle choices (for example: gluten-free, vegetarian, vegan, halal). **Please note** that while we will do our best to accommodate dietary requirements, we are unfortunately unable to cater for general preferences or dislikes. There is a choice for supper every night so you will hopefully be able to choose something that you will enjoy.

Sunday night dinner: Between October and April, Caffi Meinir will be open until 18:30 and serving food until 18:00. There's no need to book in advance – you can order from the usual day menu.

Class...

Classes are held in the 'Sgubor, the Plas, The Chapel or Ystafell Rhys. You will be informed in which classroom you will be on Monday morning. All teaching areas are accessible, and there is a lift available to reach the upstairs classroom in the Plas.

Plas...

The code to enter the Plas is **C1567X**. You are welcome to relax in the Plas during the evenings. There is a fridge and microwave there.

Local...


There is a community-run shop in the nearest village, Llithfaen. The village also has a community-led pub, Y Fic, which is open from Wednesday to Sunday evenings. They don't serve food.

Shops...

The nearest petrol station is in Y Ffôr or Morfa Nefyn. In Nefyn (5 miles from the Nant), you can find two food shops, a pharmacy and pubs. The nearest town, Pwllheli (8 miles from the Nant) has a variety of shops, as well as two petrol stations. Many of the shops are open every day between 8:00 and 21:00.

EV charging points...

They are located behind the Sgubor. If you need any assistance, please come to reception.





IECHYD A DIOGELWCH

Signal Ffôn...

Mae signal ffôn symudol ar gael mewn rhai ardaloedd yn Nant Gwrtheyrn, ond mae'r signal yn wan ar y cyfan. Gwnewch yn siŵr eich bod yn diffodd 'Data Roaming' gan ei bod yn bosibl codi signal o Iwerddon. Mae galwadau drwy Wi-Fi ar gael; os ydych angen cymorth gyda hyn, mae croeso i chi ofyn i aelod o staff.

Mae'r dderbynfa ar agor drwy'r nos, sy'n caniatáu i chi ddefnyddio'r ffôn rhag ofn y bydd argyfwng. Mae gofalwr nos yn bresennol ar y safle rhwng 5:00 YH ac 8:00 YB. Gallwch gysylltu â'r gofalwr trwy 'walkie-talkie' sydd ar gael yn y dderbynfa. Os nad yw'r gofalwr ar y safle, bydd rhif ffôn symudol ar gael yn y dderbynfa. Os bydd rhywun yn dymuno cysylltu â chi yn ystod eich arhosiad, gellir gadael neges yn y swyddfa drwy ffonio 01758 750334. Os ydych chi'n rhagweld cael anhawster cyrraedd y dderbynfa tu hwnt i oriau swyddfa arferol, rhowch wybod i aelod o staff a gallwn wneud trefniadau penodol ar eich cyfer.

- Ni chaniateir ysmegu yn unrhyw un o adeiladau'r Nant gan gynnwys y llety. Os ydych chi'n ysmegu, gofynnwn yn garedig i chi gadw draw oddi wrth unrhyw adeiladau a phobl eraill wrth wneud.
- Mae bocsys cymorth cyntaf ar gael yn y Swyddfa a'r Caffi. Gofynnwch i aelod o staff am gymorth.
- Mae diffibriliwr ar y safle, sydd wedi'i leoli ar y wal o dan y Capel.

Mewn argyfwng, ffoniwch: 999

Am gyngor (heb fod yn argyfwng), ffoniwch:

Heddlu 101

Gwasanaeth Iechyd 111

Polisiâu...

Ar gyfer polisiâu Dysgu Cymraeg Nant Gwrtheyrn, ewch i'n gwefan neu cliciwch ar y ddolen isod. Bydd copïau caled ar gael ar y safle hefyd.

[Nant Gwrtheyrn – Polisiâu Addysg](#)



HEALTH AND SAFETY

Phone Signal...

Mobile phone signal is available in some areas of Nant Gwrtheyrn, but the signal is generally weak. Please ensure you turn off 'Data Roaming,' as it is possible to pick up a signal from Ireland. Wi-Fi calling is available; if you need assistance with this, feel free to ask a member of staff.

The reception is open all night, allowing you to use the landline phone in case of an emergency. A night caretaker is present on-site from 5:00 PM until 8:00 AM. You can contact the caretaker through a walkie-talkie available at reception. If the caretaker is not on-site, an emergency mobile number will be provided at reception. If someone wishes to contact you during your stay, a message can be left in the office by calling 01758 750334. If you anticipate having difficulty reaching reception outside normal office hours, please let a member of staff know and we can make specific arrangements for you.

- Smoking is prohibited in all buildings of the Centre, including accommodation areas. If you smoke, we kindly ask that you stay away from any buildings and other people while doing so.
- First aid boxes are available at the Office and Caffi Meinir. Ask a member of staff for assistance.
- There is a defibrillator on-site, located on the wall beneath the Chapel.

In an emergency, ring: 999

For advice (non-emergency), ring:

Police 101

NHS 111

Policies...

For Nant Gwrtheyrn's Learn Welsh policies, please visit our website or click the link below. Hard copies will also be available on-site.

[Nant Gwrtheyrn - Education Policies](#)



ARGYFWNG TÂN / FIRE EMERGENCY

- Os yw'r larwm tân yn canu, bydd angen i chi adael yr adeilad ac ymgynnull yn y Cae Canol yng nghanol y pentref, rhwng y ddau deras.
 - Os nad yw hi'n ddiogel i ymgynnull yn y Cae Canol, y Pwynt Ymgynnull yw'r maes parcio.
 - Gadewch yr adeilad yn dawel ac yn drefnus.
 - Peidiwch â defnyddio unrhyw lifft.
 - Os ydych chi'n rhagweld y byddwch angen cymorth i adael adeilad mewn argyfwng tân (Cynllun Personol Gadael Mewn Argyfwng) rhowch wybod i'r Rheolwr Addysg cyn gynted â phosib er mwyn i ni roi trefniadau yn eu lle.
 - Galwch y gwasanaethau brys ar 999 os oes angen.
 - Yn ystod oriau swyddfa, bydd aelod o staff yn y Pwynt Ymgynnull yn gwirio bod pawb yno. Os yw'r larwm yn canu tu allan i oriau swyddfa, cysylltwch â'r rhif mewn argyfwng: 07860598218/07860598219.
 - Arhoswch yn y man ymgynnull nes fyddwch chi'n cael cyfarwyddiadau ei bod hi'n ddiogel i chi ddychwelyd i'r adeilad.
 - Bydd y larwm yn cael ei brofi ar brynhawn dydd Mercher pan fyddwch chi ar y trip. Os ydych chi dal ar y safle am unrhyw reswm, bydd y prawf yn para am gyfnod byr. Os ydych chi'n clywed y larwm am gyfnod hirach, yna nid prawf mohono, a bydd angen gadael yr adeilad.
 - Oni bai am y prawf byr ar brynhawn Mercher, peidiwch ag anwybyddu'r larwm.
-
- If you hear the fire alarm, you will need to vacate the building and assemble in Cae Canol, the middle field in the centre of the village, between the two terraces.
 - If it's not safe to assemble in Cae Canol, the Assembly Point is the car park.
 - Vacate the building in a quiet and orderly manner.
 - Do not use any lift.
 - If you anticipate that you will need help to vacate a building during a fire emergency (Personal Emergency Evacuation Plan) inform the Education Manager as soon as possible so that we can put arrangements in place.
 - Call the emergency services on 999 if necessary.
 - During office hours, a member of staff at the Assembly Point will check that everyone is accounted for. If the alarm goes off outside office hours, contact the emergency number: 07860598218/07860598219.
 - Stay at the Assembly Point until you receive instructions that it is safe for you to return to the building.
 - The fire alarm is tested on a Wednesday afternoon when you are on the trip. If you are still on site for any reason, the test will last for a short time. If you hear the alarm for a longer period, then it's not a test, and you will need to vacate the building.
 - Except for the short test on Wednesday afternoon, don't ignore the alarm.
-

NOFIO YN Y MÔR



Mae llawer o ddysgwyr yn mwynhau nofio yn y môr yn wythnosol yn y Nant. Gofynnwn yn garedig i chi fod yn ymwybodol o'r canllawiau diogelwch canlynol:

01

DIM SIGNAL FFÔN SYMUDOL:

Gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd â rhywun gyda chi neu yn rhoi gwybod i rywun am eich cynlluniau a phryd fyddwch yn bwriadu dychwelyd.

02

MANNAU SERTH:

Byddwch yn ofalus wrth fynd i mewn i'r môr gan ei fod yn gallu mynd yn serth yn sydyn mewn rhai ardaloedd. Ewch i mewn i'r dŵr yn raddol.

03

GWEDDILLION HEN CHWAREL:

Mae'r ganolfan wedi ei lleoli ar hen safle chwarelyddol. Gall y traeth a'r môr gynnwys olion o'r chwarel, gan gynnwys creigiau miniog.

Nid yw Nant Gwrtheyrn yn cymryd cyfrifoldeb am unrhyw niwed a allai ddigwydd i unigolion sy'n dewis nofio yn y môr.

SWIMMING IN THE SEA



Many learners enjoy swimming in the sea on a weekly basis at the Nant. We kindly ask you to be aware of the following safety guidelines:

- 01 NO MOBILE PHONE SIGNAL:**
Please ensure that you take someone with you or always inform someone of your plans and estimated return time.
- 02 STEEP AREAS:**
Please be cautious when entering the sea as it goes steep quickly in some areas.
Enter the water gradually.
- 03 OLD QUARRY REMAINS:**
The centre is located on an old quarry site. The beach and the sea may contain remnants of the quarry, including sharp rocks.

Nant Gwrtheyrn does not take responsible for any harm that may come to individuals who choose to swim in the sea.



WIFI

RHWYDWAITH /
NETWORK

Nant Dysgwyr

CYFRINAIR /
PASSWORD

DysguNant

**Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw gwestiwn.
Edrychwn ymlaen at eich croesawu i Nant Gwrtheyrn!**

**Please contact us if you have any questions.
We look forward to welcoming you to Nant Gwrtheyrn!**

01758 750334
addysg@nantgwrtheyrn.org
www.nantgwrtheyrn.cymru

